Hawdd ei Ddeall

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

# Mae Ysbyty Neuadd Nevill yn newid

## O 17 Tachwedd 2020

### Beth mae hyn yn ei feddwl i mi?



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Mae Ysbyty Neuadd Nevill yn newid**'.

**Hydref 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â::



**Gwefan:** www.biap.gig.cymru

**E-bost:** powys.engagement@wales.nhs.uk

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Contents


| | Page |
|---|---|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Damweiniau ac Achosion Brys | 6 |
| Uned Mân Anafiadau | 8 |
| Ble i fynd â phlant | 9 |
| Beth i'w wneud mewn argyfwng | 10 |
| Gwybodaeth bwysig i'w chofio | 12 |
| Cael babi | 14 |
| Gall oedolion fynd i Ysbyty Neuadd Nevill o hyd ar gyfer: | 16 |
| Bydd oedolion yn mynd i ysbyty arall ar gyfer: | 18 |
| Gall plant fynd i Ysbyty Neuadd Nevill o hyd ar gyfer: | 19 |
| Bydd plant yn mynd i ysbyty arall ar gyfer: | 20 |
| Apwyntments wedi'u cynllunio | 21 |

# Cyflwyniad




Bydd rhai newidiadau yn digwydd yn Ysbyty Neuadd Nevill o **17 Tachwedd 2020**.




Mae’r newidiadau hyn oherwydd bod ysbyty **newydd** wedi agor yng Nghwmbrân. Mae’n cael ei alw’n **Ysbyty Prifysgol y Faenor**.



Bydd y newidiadau’n effeithio’n bennaf ar bobl sydd wedi bod yn mynd i Ysbyty Neuadd Nevill ar gyfer Damweiniau ac Achosion Brys ac ar gyfer triniaeth arall.



Byddwch yn dal i fedru mynd i Ysbyty Neuadd Nevill ar gyfer rhai pethau.




Ar gyfer pethau eraill bydd arnoch chi angen mynd i wahanol ysbyty.

Bydd yr ysbyty y bydd arnoch chi angen mynd yn dibynnu:



- a ydych chi'n oedolyn neu'n blentyn



- ble rydych chi'n byw



- pam rydych chi'n mynd i'r ysbyty.

# Damweiniau ac Achosion Brys




**Os bydd rhywun yn sâl ofnadwy neu wedi ei frifo'n ddrwg, ffoniwch 999.**



Mae **Damweiniau ac Achosion Brys** yn rhoi gofal a thriniaeth i bobl sy'n sâl ofnadwy neu wedi eu brifo'n ddrwg ac angen help yn gyflym. Mae'n aml yn cael ei alw'n **A&E**.




**Bydd yr adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Neuadd Nevill yn cau.**



I'r rhan fwyaf o bobl eu hadran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf yn awr fydd **Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful. Ffôn: 01685 721721**



Ysbytai Damweiniau ac Achosion Brys eraill  y gallwch chi fynd iddyn nhw yw:

- **Ysbyty Treforys, Abertawe. Ffôn 01792 702222**
- **Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin. Ffôn 01267 235151**
- **Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth. Ffôn 01970 623131**
- **County Hospital, Henffordd. Ffôn 01432 355444**
- **Ysbyty Prifysgol y Faenor, Cwmbrân. Bydd yn agor ar 17 Tachwedd**



Os byddwch chi'n mynd i'r ysbyty mewn ambiwlans, bydd tîm yr ambiwlans yn dweud wrthych chi i ba ysbyty rydych chi'n mynd.




Gallwch edrych ble mae eich adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf yn www.111.wales.nhs.uk




Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf os nad ydych chi'n siŵr.

# Uned Mân Anafiadau



Yr Uned Mân Anafiadau yw’r lle y mae rhywun sydd ddim wedi brifo’n ofnadwy yn cael gofal. Er enghraifft, cwtau neu losg bychan.



Gallwch fynd i’r Uned Mân Anafiadau ym Mhowys o hyd:

**Aberhonddu**
01874 615800
(24 awr y dydd)

**Llandrindod**
01597 828735
(07:00 hyd 00:00 canol nos, bob dydd)

**Ystradgynlais**
01639 844777
(08:30 hyd 16:00, dydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio Gwyliau Banc)



Ffoniwch cyn mynd i Uned Mân Anafiadau ym Mhowys.



**Bydd gan Ysbyty Neuadd Nevill Uned Mân Anafiadau hefyd. Bydd ar agor 24 awr y dydd.**

# Ble i fynd â phlant




**Os bydd plentyn yn sâl ofnadwy neu wedi brifo'n ddrwg, ffoniwch 999.**




Dylai pob plentyn sy'n sâl ofnadwy neu wedi brifo'n ddrwg fynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.




Gall plant dwy oed neu hŷn na hynny fynd i'ch Uned Mân Anafiadau agosaf hefyd os nad ydyn nhw'n sâl ofnadwy neu wedi brifo'n ddrwg. Er enghraifft, os oes ganddyn nhw gwtau neu losgiadau bach.



Os nad ydych chi'n siŵr, ewch â phlant i adran **Damweiniau ac Achosion Brys**.




Gallwch edrych ble mae eich adran Damweiniau ac Achosion Brys ac Uned Mân Anafiadau agosaf yn www.111.wales.nhs.uk



Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf os nad ydych chi'n siŵr.

# Beth i’w wneud mewn argyfwng




Ffoniwch **999** os bydd plentyn neu oedolyn:

- ddim yn anadlu
- â phoenau drwg yn y frest
- yn ei chael hi’n anodd anadlu
- ddim yn deffro
- yn tagu
- yn cael ffit neu strôc am y tro cyntaf.  Hyd yn oed os ydyn nhw’n edrych yn iawn wedyn
- yn boddi.



Ewch â phlentyn neu oedolyn i’r adran **Damweiniau** ac **Achosion Brys** agosaf:

- Os oes ganddyn nhw wres uchel (twymyn) a does ganddyn nhw ddim egni.

- Os ydyn nhw’n anadlu’n gyflym, yn fyr eu gwynt neu mae eu hanadlu yn swnllyd.

- Os oes ganddyn nhw boen drwg iawn yn eu stumog.

- Os oes ganddyn nhw gwt sy’n cau stopio gwaedu neu un sy’n llydan ac yn agored.

- Os ydyn nhw wedi brifo eu coes neu eu braich ac yn methu ei symud.

- Os ydyn nhw wedi llyncu tabledi, cynhyrchion glanhau neu unrhyw beth fuasai’n medru eu brifo.




Os **nad yw’n argyfwng** neu yr hoffech chi siarad â rhywun am blentyn neu oedolyn sydd wedi brifo neu sydd ddim yn dda, ffoniwch **111**.

# Gwybodaeth bwysig i'w chofio



Gallwch ysgrifennu gwybodaeth bwysig ar y dudalen hon.

Mae fy adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf yn:

Ffôn:

Mae fy uned Mân Anafiadau agosaf yn:

Ffôn:




Ffoniwch 111 os yw rhywun yn sâl a dydych chi ddim yn gwybod beth i'w wneud.  Gwasanaeth y **GIG 111 Cymru** yw hwn ble bydd gweithiwr iechyd yn rhoi help a chyngor i chi.




Gallwch chi hefyd ffonio 111 os yw eich meddygfa ar gau.



Gallwch chi hefyd ofyn i'ch fferyllfa agosaf os oes salwch cyffredin sydd ddim yn ddifrifol ar rywun.  Er enghraifft:  dolur gwddf, peswch.




Gallwch ddod o hyd i wybodaeth hawdd ei ddeall ynglŷn ag anhwylderau yma [111.wales.nhs.uk/easyreads](111.wales.nhs.uk/easyreads)

# Cael babi



Gallwch ddewis **ble** i eni eich babi. Bydd hyn yn dibynnu ar eich anghenion a'ch cyflwr meddygol.



Gallwch siarad â'ch **bydwraig** am eich dewisiadau. Mae bydwraig yn berson sydd wedi cael hyfforddiant i helpu menywod sy'n disgwyl babi yn ystod eu beichiogrwydd ac wrth iddyn nhw eni eu babi.

**Y mannau sydd ar gael yw:**



- Mewn uned geni babi sy'n cael ei redeg gan fydwragedd. Mae canolfannau yn Aberhonddu, Llandrindod, Trefyclo, Llanidloes, Y Drenewydd a'r Trallwng. Bydd canolfan hefyd yn Ysbyty Neuadd Nevill.



- Gartref.



- Mewn lle ble mae meddygon arbenigol ar gael.



**Ni fydd gan Ysbyty Neuadd Nevill le i eni babi ble mae meddygon arbenigol ar gael.**



Os oes gennych chi anhwylderau sy'n meddwl y bydd arnoch chi angen geni eich babi ble mae meddygon arbenigol ar gael siaradwch â'ch bydwraig a bydd yn medru dweud wrthych chi ble y gallwch chi eni eich babi.

## Gall oedolion fynd i Ysbyty Neuadd Nevill o hyd ar gyfer:



- **Mân anafiadau.**



- **Llawdriniaeth yn Ystod y Dydd** – ble bydd pobl yn mynd i gael llawdriniaethau bach a dod adref yn ystod y dydd.



- Rhai **Clinigau Cleifion Allanol** – ble gall pobl weld meddyg neu gael triniaeth a dod adref wedyn.



- **Gwasanaethau Diagnostig** – ble bydd pobl yn cael profion, sganiadau neu brofion pelydr-x i weld beth yw’r broblem.



- Yr **Uned Asesu Feddygol** – ble gall pobl aros yn yr ysbyty am ychydig i gael profion i weld beth yw’r broblem.



- Yr **Uned Gofal Uwch ar gyfer Eiddilwch** – Gofal ar gyfer pobl hŷn sy'n sâl ac angen gofal arbennig.



- **Gwasanaethau Cleifion Mewnol** pan fydd ar bobl angen aros yn yr ysbyty am driniaeth. Ond nid i gael llawdriniaethau.



- **Gwasanaethau Mamolaeth dan Arweiniad Bydwraig** – ble mae menywod sy'n disgwyl babi yn cael gofal gan Nyrsys sydd wedi cael hyfforddiant arbennig.

# Bydd oedolion yn mynd i ysbyty arall ar gyfer:




- **Damweiniau ac Achosion Brys.**



- **Llawdriniaeth Cleifion Mewnol –** pan fydd pobl yn cael llawdriniaeth ac yn aros yn yr ysbyty nes eu bod yn ddigon da i fynd adref.



- **Cael babi dan Arweiniad Meddyg Ymgynghorol** – pan fydd menyw sy'n disgwyl babi sydd â phroblemau iechyd yn cael gofal gan feddyg sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig.l.

## Gall plant fynd i Ysbyty Neuadd Nevill o hyd ar gyfer:




- Yr **Uned Mân Anafiadau** os ydyn nhw'n flwydd oed neu'n hŷn. Ond dim ond os ydyn nhw'n **ddwy flwydd oed neu'n hŷn** y gall Unedau Mân Anafiadau yn Aberhonddu, Llandrindod ac Ystradgynlais weld plant.



- **Llawdriniaeth yn ystod y Dydd.**



- Rhai **Clinigau Cleifion Allanol.**

# Bydd plant yn mynd i ysbyty arall ar gyfer:




- **Damweiniau ac Achosion Brys.**



- **Uned Asesu Pediatrig** – ble bydd plant yn aros yn yr ysbyty i gael profion i weld beth yw’r broblem.



- **Gwasanaethau Cleifion Mewnol.**



- **Uned Gofal Arbennig Babanod** – ble bydd babanod sy’n ifainc iawn ac yn sâl yn cael gofal os oes arnyn nhw angen gofal arbennig.



- **Llawdriniaeth Cleifion Mewnol.**

# Apwyntments wedi'u cynllunio



Peidiwch â phoeni os oes gennych chi neu eich plentyn apwyntment ar ôl 17 Tachwedd.



Os bydd unrhyw newid i'ch apwyntment, byddwn yn rhoi gwybod i chi.